# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant

**Cyfarfod eithriadol gyda Jan Logie AS Is-ysgrifennydd Seneddol i'r Gweinidog Cyfiawnder (Materion Trais Domestig a Rhywiol), Llywodraeth Seland Newydd**
**Noddir gan Mark Isherwood AC**
**9 Gorffennaf: 16:30-17:30**

**Yn bresennol:**
Mark Isherwood AC (Cadeirydd)
Joyce Watson AC
Ann Jones AC
Suzy Davies AC
Gwendolyn Sterk (Cymorth i Ferched Cymru - Ysgrifenyddiaeth),
Jan Logie AS (Llywodraeth Seland Newydd),
Heather McDonald (Llywodraeth Seland Newydd),
Geraldine Newbery (Llywodraeth Cymru),
Simon Borja (Cymru Ddiogelach)
Sam Lewis (Llamau),
Hilary Watson (Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru),
Eleri Butler (Cymorth i Ferched Cymru),
Catherine Phillips (Cymorth i Ferched Cymru,
Gauri Nayar-Taylor (cynrychiolydd SEEdS),

**Ymddiheuriadau:**
Bethan Sayed AC

| **Cofnodion** |
|---|
| Sefydlwyd y cyfarfod er mwyn rhannu arfer gorau o ran mecanweithiau'r Grŵp Trawsbleidiol a'i ymwneud â datblygu a gweithredu'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) gyda Jan Logie AS Is-ysgrifennydd Seneddol i'r Gweinidog Cyfiawnder (Materion Trais Domestig a Rhywiol), Llywodraeth Seland Newydd a'i thîm. |
| **Trafodaeth:**<br><br>**Croeso:** Croesawodd Mark Isherwood AC Jan Logie AS, Is-ysgrifennydd Seneddol i Weinidog Cyfiawnder Llywodraeth Seland Newydd, i'r Grwp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant.<br><br>**Pwrpas y Grŵp Trawsbleidiol:** Nododd Gwendolyn Sterk mai pwrpas y Grŵp Trawsbleidiol yw codi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod a phlant a dod o hyd i atebion. Fe'i mynychir gan ACau ar draws y Senedd ac mae ganddo gynrychiolaeth drawsbleidiol. Mae'n hwyluso deialog rhwng y sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, goroeswyr, academyddion, ymgyrchwyr ac Aelodau'r Cynulliad.<br><br>**Datblygu'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru):** Bu gan y grŵp rôl hanfodol yn y cyfnod cyn datblygu'r ddeddfwriaeth - yn arbennig rôl y Cynghorwyr Cenedlaethol a sicrhau bod y Ddeddf yn cynnwys safbwynt a oedd yn ystyried y rhywiau. Roedd hefyd yn bwysig o ran codi'r angen am addysg cydberthynas iach a dull Addysg Gyfan. Bu'r trafodaethau hyn yn y Grŵp Trawsbleidiol yn sail i graffu ar y Bil Trais yn erbyn |

| |
|---|
| Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn y Senedd, ac yn arbennig fe oleuodd y ddadl ynglŷn ag addysg cydberthynas iach a rhaglenni cyflawnwyr.<br><br>**Ar ôl gweithredu'r Ddeddf:** Mae'r grŵp wedi craffu ar gyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol yn dilyn y Ddeddf ac fe fwydodd i mewn i'r adolygiad ar ôl gweithredu. Mae'r grŵp wedi ysgrifennu at weinidogion i dynnu sylw at bryderon ynghylch darparu a chyllido. Mae wedi amlygu goblygiadau polisïau gan San Steffan ar gyfer goroeswyr a gwasanaethau yng Nghymru, gan ystyried sut ellid lliniaru'r effeithiau yng Nghymru. Mae hefyd wedi rhoi cymorth i lansio safonau ar gyfer gwaith gyda chyflawnwyr gan Respect UK.<br><br>**Pam fod y Grŵp yn llwyddiannus***:* Eglurodd Ann Jones AC, y Dirprwy Lywydd, fod dyletswydd cydraddoldeb a chynaliadwyedd wedi'i chyflwyno pan sefydlwyd y Cynulliad ym 1999, a bod hyn wedi arwain at fwy o ymgysylltiad â grwpiau'r gymdeithas sifil. Sefydlwyd y grŵp yn sgîl sgyrsiau gyda'r sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac ACau i symud y materion hyn yn eu blaenau yng Nghymru. Nodwyd hefyd fod maint y Cynulliad Cenedlaethol a'r ganran fawr o ACau benywaidd yn ffactorau cadarnhaol er mwyn i'r Grŵp Trawsbleidiol ddylanwadu. Cryfder y grŵp hwn yw'r cyfuniad a chydweithrediad rhwng lleisiau'r trydydd sector a goroeswyr, sy'n helpu i ddwyn materion i sylw'r grŵp.<br><br>**Ymwybyddiaeth o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn Seland Newydd:** Eglurodd Jan Logie AS eu bod wedi cynnal ymchwiliad y bobl yn ddiweddar a hwnnw wedi'i ariannu'n breifat. Un o'r prif ymchwilwyr ac ysgogwyr ar gyfer newid fu goroeswr academaidd a sefydlodd lwybr ar gyfer goroeswyr yn ddiweddar i siarad am y materion. Yna, darparodd Llywodraeth Seland Newydd ddeng mlynedd ar hugain o waith tracio trais yn erbyn menywod i adolygu gwahanol elfennau o newid parhaus.<br><br>O ran canfyddiad y cyhoedd, mae hwn wedi newid ychydig oherwydd y gwaith y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i leihau poblogaeth carchardai gan fod ymchwil yn dangos bod dros 80% o'r rheiny yn y system cyfiawnder plant a phobl ifanc wedi profi neu weld trais teuluol.<br><br>Yn ogystal â hynny, bu ymgyrch maith o'r enw 'family violence – it's not ok', sef cynghrair Trais Teuluol a Thrais Rhywiol. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi dechrau rhoi hyfforddiant ar ddatgeliadau gan mai dim ond 15% sy'n dod trwy asiantaethau arbenigol ar hyn o bryd.<br><br>Maent ar fin pasio deddfwriaeth i oroeswyr gael 10 diwrnod o wyliau â thâl ac adeiladu ar weithio hyblyg, gyda hyn yn cael ei ddiogelu gan ddeddfwriaeth hawliau dynol gan sicrhau na ellir gwahaniaethu yn eu herbyn.<br><br>Maent hefyd wedi cael cefnogaeth rhai menywod o fri i wneud rhywfaint o ymchwil economaidd i lunio dull o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod i leihau costau ac maent yn adolygu eu prosesau cymorth cyfreithiol. |
| **Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 17:30.** |